**Mai 2018** **Rhifyn 266**



Y Goeden Heddwch ger y Capel
Llun gan Amelia Davies

‘Y mae Duw yn neffro’r gwanwyn’ *Caneuon Ffydd 136*




*******

**Mae Carol (Jenkins) yn gadael ei swydd fel rheolwr y Morlan. Diolchwn yn fawr iddi am ei gwaith a'i chyfraniad dros y blynyddoedd, a dymunwn yn dda iddi yn y dyfodol.**

# Newyddion

**Derbyn dau aelod newydd ar 15 Ebrill**
Bu *Mona Chambers* yn byw ym Mangor am drigain mlynedd, lle roedd ei gŵr, Gwyn, yn darlithio mewn Mathemateg yn y Brifysgol. Roedd hi'n aelod gweithgar o Berea Newydd. Symudodd *Ann Griffiths* o Abergwaun yn ddiweddar. Cyn iddi ymddeol roedd yn athrawes gynnal iaith yn Ysgol y Preseli. Rydym yn ddiolchgar iawn iddi am fod mor barod i gymryd rhan yng Ngwasanaeth Gweddi Byd-eang y Chwiorydd ar 22 Ebrill. Mae'r ddwy wedi dod i Aberystwyth i fyw yn agos at eu teuluoedd. Dywedodd Mona 'Mae Capel y Morfa yn arbennig o groesawgar' a sylw Ann oedd 'Rwy'n teimlo'n gartrefol iawn yma'. Croeso cynnes i'r ddwy!

**Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at:**
Nia Mai Daniel, Gronw Fychan Downes, Mattie Evans, Meirion Morgan a Mary Jones Morris a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac at ein haelodau sydd yn derbyn gofal ar eu haelwydydd ac mewn cartrefi preswyl.

**Cydymdeimlwn yn ddwys…**
**…**â Sharon Owen ar farwolaeth ei mam, Mrs. Glenda Owen ym Mhenygroes, mam yng nghyfraith Arwel a nain Gethin, Iago a Llifon.
…â Mary Morgan a'r teulu ar farwolaeth modryb Mary, sef Mrs Laura Hughes – mam i Gwenllian a Marilyn. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel y Morfa ar ddydd Gwener, 20 Ebrill.
…â Raymond a Miriam Evans yn eu profedigaeth o golli chwaer a chwaer-yng-nghyfraith - sef Mrs Valerie Ellis Jones.

**Yr Ysgol Sul**
Mae rhai plant ac ieuenctid yr Ysgol Sul wedi bod yn gysylltiedig â gweithgareddau chwaraeon, pêl droed, dawns a nofio ac eraill wedi bod yn rhan o gwmni pantomeim Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a chwmni drama leol. Llongyfarchiadau i bawb.

Llongyfarchiadau hefyd i'r rhai fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Sir yr Urdd yn unigol ac fel aelodau o grŵp, barti neu gôr. Dymunwn yn dda iddynt yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Llanelwedd ddiwedd Mai.

# Gair gan y Gweinidog

Ymhlith fy narllen diweddar y mae cyfrol hynod o ysgafn gan ŵr o'r enw Tim Moore. Llyfr clawr meddal gyda'r teitl 'YOU ARE AWFUL (BUT I LIKE YOU)'. Efallai eich bod chi'r un fath ond anaml iawn y byddai'n darllen un llyfr ar y tro! Un llyfr yn y car, un arall wrth ochr fy ngwely, un arall yn y stydi, amrywiol, gwahanol, cyferbyniol. Llyfr teithio yw llyfr Tim Moore ac er bod yr iaith ar adegau braidd yn amrwd y mae'n hynod o ddarllenadwy. Mewn un ystyr mae'n debyg i unrhyw lyfr teithio arall, yn disgrifio mannau o ddiddordeb yn hanesyddol a chymdeithasol ac eto mae'n hollol wahanol. Yn dilyn taith annisgwyl i Ynys Sheppey yng Nghaint, lleoliad sydd wedi gweld dyddiau gwell, mae'n teithio i fannau tebyg a dyna swm a sylwedd y gyfrol. Am bum cant o bunnau mae'n prynu car, Austin Maestro, un o geir eiconig yr wythdegau, car oedd yn symbol o obaith y dyfodol ac yn troi ei drwyn i nifer o drefi arfordirol a mewnol y Deyrnas Unedig. Nid yn unig y car ond hefyd y gwestai. Yn hytrach na defnyddio gwestai moethus a llefydd fel Premier Inn a Ibis a Holiday Inn mae'n defnyddio'r wefan Tripadvisor ac yn penderfynu aros yn y gwestai gwaethaf. Ymhlith y trefi hynny mae'r Rhyl, cyrchfan tripiau Ysgol Sul fy mhlentyndod a chartref rhyfeddodau fel 'Marine Lake', 'Yr Heulfan' heb anghofio'r 'Monorail' a'r chips a'r 'Candy Floss'. I ni, uchafbwynt y flwyddyn oedd y trip Ysgol Sul a Rhyl fel Porthcawl i blant y De yn destun mwyniant a llawenydd. Ond mae pethau'n newid! A dyna swm a sylwedd cyfrol Tim Moore, y dirywiad economaidd yna sy'n amlwg ers yr wythdegau a lle gynt 'roedd diwydiant yn cynnal a siapio cymdeithas, bellach mae yna ddiweithdra a chanlyniad hynny ar fywyd cymdeithasol dinasoedd a threfi. Llefydd fel Grimsby a Hull, Merthyr a Stoke heb anghofio Rhyl!

Y mae'n gyfrol sy'n darlunio ymdrechion cynghorau i newid a goresgyn, weithiau'n llwyddo weithiau ddim ond yn fwy na dim yn gofnod trist ar adegau o ogoniant y gorffennol a realiti'r presennol. Ceisiwch gopi a mwynhewch y doniol a'r difrifol. Ym mhlyg y

penodau a ninnau'n nesáu at y Pentecost gallasai rhywun ond meddwl am yr Eglwys hefyd a'r modd y mae'n bodoli o un cyfnod i'r llall. Yn etifeddol, real y mae'n bodoli ac yn byw rhwng dau gyfnod; y gorffennol a'r presennol. Y perygl yw ceisio efelychu'r gorffennol hwnnw ac o wneud hynny agor ein hunain i deimladau o siomiant ac anobaith. Nid dyna fu hanes yr Eglwys ar hyd y canrifoedd, sef ceisio parhau patrwm a hynny'n ddigyfaddawd, fyddar ond yn hytrach adnabod Duw o'r newydd a dirnad ei ewyllys ac adnabod cymdeithas, a dyna fentrai ddweud yw'r allwedd i unrhyw ddyfodol. Y mae heddiw yn galw arnoch chi a fi i adnabod Duw yng Nghrist yng nghanol bywyd, i glywed ei alwad ac i ymroi i'w wasanaeth. Boed i ni'r argyhoeddiad a'r gwyleidd-dra i wneud hynny gan adlewyrchu'r newydd-deb yna mewn addoliad a thystiolaeth sy'n deilwng o Efengyl ein Harglwydd Iesu. Boed i wefr y Pentecost ein hysbrydoli o'r newydd!

Austin Metro oedd gen i yn yr wythdegau, beth oedd gennych chi!

Eifion.

**Coleg y Bala – Miri Mehefin**

Mehefin 8fed-10fed

Penwythnos i blant 8-12 oed

Pris: £62 am y gwyliau sy'n cynnwys llety, bwyd ac amrywiaeth o weithgareddau
Gostyngiad i ddau o'r un teulu (hanner pris £31.50)

Os oes diddordeb rhowch wybod i Eleri neu un o athrawon yr Ysgol Sul.

## A future for minority religious groups in the Middle East? Article 18 human rights and the Christian community in Iraq and Syria

Dyma oedd teitl sgwrs a roddwyd yn y Morlan amser cinio ddydd Llun 26 Mawrth gan Dr Matthew Rees, Swyddog Polisi Eiriolaeth Open Doors sydd â'i bencadlys yn Rhydychen.




Dechreuodd Matthew drwy sôn am sut y sefydlwyd yr elusen gan y Brawd Andrew rhyw drigain mlynedd yn ôl. Ceisio cael Beiblau i Ddwyrain Ewrop oedd y symbyliad gwreiddiol, ac mae'r elusen yn parhau i weithio i ddosbarthu Beiblau a llenyddiaeth Gristnogol i Gristnogion a chymunedau Cristnogol sy'n cael eu gwahardd rhag arfer eu ffydd. Mae'r elusen erbyn hyn yn gweithio mewn rhyw 60 o wledydd, yn cefnogi unigolion a chymunedau Cristnogol dan orthrwm. Maent hefyd yn ceisio perswadio llywodraeth Prydain i gydnabod y methiant i gyd-fynd ag Erthygl 18 y Datganiad Rhyngwladol ar Hawliau Dynol mewn sawl lle; mae Erthygl 18 yn nodi fod gan yr unigolyn yr hawl i ddewis pa ffydd i'w harddel, yr hawl i newid ei ffydd a'r hawl i beidio ag arddel ffydd.

Mae Open Doors yn gweithio yn Irac a Syria ers tua chwarter canrif, yn cefnogi arweinwyr eglwysi, yn darparu llenyddiaeth Gristnogol a chynnig cymorth dyngarol. Mae nifer y Cristnogion yn y ddwy wlad yma wedi lleihau'n fawr dros y cyfnod hwnnw, ac mae nifer o ffactorau'n gyfrifol am yr allfudiad yma, gan gynnwys ISIS

a rhyfeloedd gwaedlyd. Ond mae yna gymunedau Cristnogol niferus yn parhau yno, a nifer o'r Cristnogion wedi mudo i rannau eraill o'r Dwyrain Canol, gwledydd megis Twrci, Lebanon a'r Iorddonen, yn y gobaith o gael dychwelyd i'w mamwlad cyn gynted ag y bydd hynny'n ddiogel.

Ond er gwaethaf y peryglon dychrynllyd mae nifer o Gristnogion yn eu hwynebu, soniwyd am sawl stori gadarnhaol am brosiectau y bu Open Doors yn eu cefnogi yno. Clywsom am y Tad Edward a'i wraig Rana yn penderfynu peidio dianc at deulu yn America ond yn hytrach aros yn Namascus i rannu cariad Duw. Mae eu gwaith drwy'r eglwys yn cynnal ac yn bwydo tua 2000 o deuluoedd, ac mae'n braf gweld Open Doors mewn achosion fel hyn yn cefnogi Cristnogion y gwledydd i helpu'r gymuned ehangach. Gwelwyd llun o'r Tad Yussef, a'r modd y bu i'w fynachdy gynorthwyo i ail-sefydlu diwydiant cerrig y tu allan i ddinas Mosul, ac adfer bywoliaeth a hunan barch cymaint o seiri maen yr ardal. Mae'r Tad Daniel yn helpu cymaint o ieuenctid sy'n dioddef o effeithiau trawma yn ardal Kwrdistan, ac fe'i gwelwyd yn dod draw i gyfarfod â Theresa May yn ddiweddar i drafod yr angen sydd yn ei wlad am gymorth i ddygymod â'r erchyllterau a brofwyd yno.

Mae yna nifer o hanesion dychrynllyd am yr hyn sy'n digwydd i gymunedau ffydd leiafrifol yn y Dwyrain Canol, ond yn ôl Open Doors, mae yna ddyfodol i'r cymunedau Cristnogol yno, a hwnnw'n un llawn gobaith. Pwysleisiwyd fod Duw wedi dangos ei fod heb os nac oni bai ar waith ym mysg sawl cymuned ffydd, a bod Ei gariad a'i obaith yn parhau'n fyw iawn drwy'r cymunedau rheiny.

*Gwenan Creunant*

## Profi cymun Emaus

Roedd yn brofiad bendithiol dros ben cael bod yn bresennol mewn gwasanaeth arbennig ar nos Sul y Pasg o dan arweiniad John Roberts ac Eifion. Fel rhan o'r gwasanaeth, adroddwyd hanes y Pasg gan nifer o aelodau'r capel, gyda'r sgript a ddefnyddiwyd wedi ei seilio ar wasanaeth tebyg gan Riding Lights. Rhywbeth yn ymdebygu i ddrama radio oedd hon yn y bôn; geiriau prif gymeriadau stori'r Pasg yn cael eu hadrodd gyda rhywfaint o arddeliad ond dim gormod o actio go iawn, diolch byth! A gorau oll, heb unrhyw rihyrsal o gwbl!



Llwyddodd y gwasanaeth i gyfleu hanes y Pasg mewn ffordd effeithiol dros ben ac fe gafodd bawb brofiad bendithiol iawn o fod yn y gwasanaeth; a hynny am nifer o resymau. Yn gyntaf, cawsom gyfle fel cynulleidfa i glywed holl hanes y Pasg - o brofiad Iesu yng ngardd Gethsemane, i'w holi gan Peilat, ei Groeshoeliad, ei Atgyfodiad, a'i daith gyda'r ddau ar y ffordd i Emaus - mewn un oedfa. Yn wahanol iawn i stori'r Nadolig, lle cawn gyfle bob blwyddyn i glywed holl elfennau hanes y Geni mewn un oedfa, mae tueddiad i stori'r Pasg i gael ei rannu rhwng sawl oedfa; o Sul y Blodau, i'r oedfa ar fore Gwener y Groglith a'r dathliad gorfoleddus ar fore Sul y Pasg. Roedd yn brofiad gwerthfawr dros ben yn y gwasanaeth arbennig hwn i weld holl elfennau'r Pasg yn cael eu gwau at ei gilydd i mewn i un hanes cyflawn.

Yn ail, cafwyd cryn bwyslais yn y gwasanaeth ar gynnwys yr holl gynulleidfa yn rhan o'r 'perfformiad'. Yn ogystal â'r deg fu'n adrodd y rhannau unigol, cyfrannodd gweddill y gynulleidfa fel storïwyr neu gorws. Sicrhaodd hyn, wrth gwrs, fod pawb yn teimlo eu bod yn rhan o'r digwyddiadau a bortreadwyd ac, fel soniodd John ar ddechrau'r oedfa, rhoddodd hyn gyfle i bawb yn ei dro i uniaethu gyda'r prif gymeriadau, gan holi: sut fuaswn i wedi ymateb pe bawn i wedi bod yn penderfynu ffawd Iesu yn lle Peilat?; beth fyddai fy ymateb i wedi bod wrth y Groes neu wrth ddod at y bedd gwag?; a sut fuaswn i wedi ymateb wrth sylweddoli mai'r Iesu atgyfodedig oedd wedi bod yn fy nghwmni'r holl ffordd i Emaus?

Yn drydydd, cafodd pawb brofiad gwahanol ac effeithiol iawn o rannu'r Cymun gyda'r ddau fu'n cerdded tuag at Emaus gydag Iesu. Ac yn wahanol iawn i Gymun arferol, roedd hwn yn Gymun anffurfiol wrth i dorth o fara a dau gwpanaid o win i gael eu pasio o un person i'r llall yn y gynulleidfa. Yn ogystal ag atgyfnerthu'r syniad ein bod wedi bod yn rhan o stori'r Pasg yn y gwasanaeth, roedd y profiad o basio torth a chwpanaid o win o un person i'r llall yn gyfrwng i ni gyd, dybiaf fi, i deimlo ein bod yn rhan o un teulu yng Nghapel y Morfa; teulu wedi eu huno yn aberth ac atgyfodiad Iesu Grist.

Yn gryno, felly, rhoddodd y gwasanaeth arbennig hwn gyfle i mi i ddynesu at hanes y Pasg mewn ffordd wahanol ac effeithiol dros ben, ac rwy'n siŵr cafodd pawb arall oedd yno yr un profiad bendithiol hefyd. Gobeithio cawn gyfle eto yn y dyfodol i gofnodi a dathlu rhai o brif hanesion y Beibl yn yr un modd gwreiddiol a gafaelgar.

*Rhys Jones.*

# Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De
## yn Eglwys Bwlchgwynt Tregaron
## Dydd Iau, 17 Mai 2018

**2 o’r gloch:**
***Rhyddid i fyw: merched a ddaw***
***wyneb yn wyneb â Iesu***
***Menna Machreth Llwyd, Caernarfon***

**5:30 o’r gloch:**
***Gofalu am rai mewn henaint a salwch –***
***beth allwn wneud fel Eglwysi?***
***Yr Athro Mari Lloyd-Williams, Lerpwl***

Er mwyn cefnogi'r Ganolfan Ddydd yn Waungoleugoed byddai Mari Lloyd-Williams yn gwerthfawrogi pe baem yn barod i gyfrannu nwyddau i'w gwerthu yn y siop. Bydd bocs ym mlaen y capel ym Mwlchgwynt i dderbyn eich nwyddau. Dyma'r nwyddau sydd wedi eu hawgrymu:

1. Anrhegion newydd – toiletries, gift sets, notelets (anrhegion Nadolig dros ben!).
2. Anrhegion a nwyddau bach newydd i blant.
3. Eitemau bach i oedolion e.e sanau, menig, sgarffiau, hetiau, ymbarel, hancesi a.y.b.

Diolch yn fawr iawn i bawb am y cyfraniadau a dderbyniodd Mary Jones Morris tuag at y Genhadaeth i gefnogi prosiectau yma yng Nghymru ac mewn gwledydd tramor. Trwy gyfrwng rhoddion a chasgliadau yn y blychau cenhadol derbyniwyd £190. Ychwanegwyd at y cyfanswm hwn gyda chyfraniad o £100 oddi wrth Gymdeithas y Morfa.

## Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd
## ‘Mae Cread Duw yn Dda Iawn i Gyd!’

Eleni gwragedd Surinam oedd yn gyfrifol am Wasanaeth Gweddi Byd-eang y Chwiorydd. Mae Surinam yng ngogledd De America ac yn wlad hardd a ffrwythlon iawn. Yn y gwasanaeth hwn mae chwiorydd Surinam yn ein hannog i garu’r Greadigaeth, rhodd gan Dduw, ac i ymrwymo i ofalu am y byd mewn modd cyfrifol fel y cawn ninnau ei drosglwyddo’n ddilychwyn i’n plant. Yr ail o Fawrth oedd y Dydd Gweddi Byd-eang, ond ni chafwyd y gwasanaeth eciwmenaidd yn y Morfa bryd hynny oherwydd y tywydd oer. Fodd bynnag, cytunwyd i gynnal y gwasanaeth nos Sul, 22 Ebrill, gyda aelodau’r Morfa yn unig yn cymryd rhan. Diolch i bawb a gyfrannodd i’r oedfa ac a baratodd yr arddangosfa i’n hatgoffa o’n cysylltiadau gyda’r eglwys fyd-eang.



Y gwraegedd a gymerodd ran yn y gwasanaeth

**Wythnos Cymorth Cristnogol 2018**
**13 Mai – 19 Mai Adeiladu Tŷ Gobaith**
**Casgliad o Ddrws i Ddrws yn Aberystwyth a thu allan y dre gan aelodau'r capeli ac eglwysi.** Gofynnir am wirfoddolwyr o blith aelodau Capel y Morfa i gasglu yn rhai strydoedd. Cysylltwch â Dilys Lloyd neu Jean Porteous.

**Llun 14 Mai, Cinio Bara a Chaws** yn y Ganolfan Fethodistaidd **St Paul** o 12.15 i 1.30 yp. Bydd gwasanaeth byr am 12.00 i ddynodi dechrau Wythnos Cymorth Cristnogol.

**Mawrth 15 Mai, Brecwast Mawr**, 8.00 I 10.00 yb yn y **Morlan**

**Iau 17 Mai, Noson Goffi** 6.00 i 7.30 yh yn Eglwys **St Anne, Penparcau.**

**Gwener 18 Mai, Bore Coffi** 10.30 yb i 12.00 yn Festri **Bethel, Stryd y Popty.**

**Wythnos Siop Cymorth Cristnogol**
**Llun i Gwener, (21 i 25 Mai), yn Festri Seion, Stryd y Popty.** Bydd y siop ar agor o 1.00 tan 5.00 ar y dydd Llun, ac o 9.30 tan 5.00 dydd Mawrth i ddydd Gwener. Bydd stondinau ar gyfer llyfrau, bric-a-brac, cacennau, crefftau, hobïau, nwyddau i'r cartref, gardd a phlanhigion. Ni ellir derbyn offer trydanol.
Dewch â nwyddau o ddydd Llun ymlaen am 8.30yb. Os ydych am gyfrannu cacennau fel aelodau o Gapel y Morfa dowch â nhw i festri Seion **ar ddydd Mercher, 23 Mai**. Bydd Arnold Smith (611769) yn barod i ateb ymholiadau am y siop.

## Wythnos Cymorth Cristnogol 2018

***Adeiladu Tŷ Gobaith***



Collodd Vilia ei chartref a'i mam pan darodd daeargryn Haiti yn 2010. Doedd ganddi unlle diogel i aros ynddo gyda'i phlant. Gwelodd bartner Cymorth Cristnogol, KORAL, pa mor ddifrifol oedd ei sefyllfa a chodi tŷ newydd iddi.
Cafodd Haiti ei tharo gan Gorwynt Mathew yn 2016 a ffodd cymdogion Vilia i'w thŷ newydd hi, a adeiladwyd gan bartner Cymorth Cristnogol. Dyma'r unig dŷ yn y gymuned i fod yn ddigon cryf yn wyneb y storm. Cafodd 54 person loches a bwyd gan Vilia y noson honno.

Yr Wythnos Cymorth Cristnogol hon, gallwch ymateb i anghenion brys y miliynau o ffoaduriaid o amgylch y byd. Fel cymdogion Vilia yn ystod y corwynt, mae llawer angen bwyd a lloches ar frys. Bydd yr arian a godwn yr wythnos hon yn help i filoedd o gymunedau fel ei chymuned hi.

**Gweddi'r Deyrnas**

Dduw Sancaidd, yn dy Deyrnas,
Mae'r cryf angen y gwan,
Caiff y cyfoethog eu trawsnewid gan y tlawd,
Caiff y ffortunus eu croesawu gan y digartref.
Caiff dy Deyrnas ei hadeiladu gan y rhai sy'n disgwyl i'w Duw ddod. *Amen*

**……..bydd yr Ysbryd Glân yn disgyn arnoch chi, ac yn rhoi nerth i chi ddweud amdana i wrth bawb - yn Jerwsalem a Jwdea, yn Samaria a drwy'r byd i gyd.**
**…..Dyma pawb oedd yno yn cael eu llenwi â'r Ysbryd Glân ac yn dechrau siarad mewn ieithoedd eraill...**

Dyma eiriau'r Iesu cyn yr esgyniad, ond, beth ddigwyddodd i'r disgyblion yn y blynyddoedd yn dilyn hyn?

Rydym yn gwybod am hanes **Pedr** oherwydd ei fod wedi ei gofnodi yn y Testament Newydd. Bu'n cenhadu ym Mhontus, Galatia a Chapadocia yn Nhwrci, Bethania, yr Eidal ac Asia a chafodd ei groeshoelio ben i waered gan yr ymerawdwr Nero yn Rhufain.



Aeth **Mathew** i genhadu i Barthia yn Iran. Yn ôl yr hanesydd Hippolytus ysgrifennodd Mathew ei efengyl yn yr iaith Hebraeg a'i gyhoeddi yn Jerwsalem. Bu farw yn hen ŵr yn nhre Hierees sydd yn ymyl Tehran.

Bu **Andreas** yn genhadwr yn y gwledydd a elwir heddiw yn Georgia a Bwlgaria. Pregethodd yr efengyl i'r Scythiaid a'r Thraciaid. Cafodd ei groeshoelio a'i grogi o goeden yr olewydd yn nhre Patrae, yn ardal Achaia (gwlad Groeg) ac yno y cafodd ei gladdu.

Cenhadu o fewn ei filltir sgwâr yn Jerwsalem y bu **Iago mab Alpheus**. Cafodd ei labyddio a'i gladdu yn ymyl y deml. Aros yng ngwlad Jwdea gwnaeth **Iago mab Sebedeus**. Bu yno'n pregethu tan i Herod y tetrarch ei ddienyddio trwy dorri ei ben i ffwrdd â chleddyf. Marw o henaint wnaeth **Ioan** brawd Iago. Cafodd ei alltudio i ynys Patmos gan y brenin Domitian oherwydd ei bregethu grymus. Mae Hippolytus wedi cofnodi mai yn Ephesus yr ysgrifennodd Ioan ei efengyl a gweld y weledigaeth apocalyptaidd, sef y Datguddiad.

Aeth **Philip** yn genhadwr i Phrygia yng ngwlad Twrci lle y cafodd ei groeshoelio ben i waered a'i gladdu yn nhre Hierapolis.

Bu **Simon** y Selot yn ail Esgob Jerwsalem ar ôl Iago y Cyfiawn. Bu farw o henaint yn 120 mlwydd oed. Aeth **Thaddeus/Jwdas** mab Iago yn genhadwr i Edessa ac i ardaloedd ym Mesapotamia (Irac, Syria, Twrci, Iran) a bu farw yn hen ŵr yn nhre Berytus.

**Tomos** a elwir Didymus. Bu'n pregethu i'r Parthiaid a'r Mediaid, y Persiaid, yr Hyrcaniaid yn Iran, y Bactriaid yn Affganistan a'r Margiaid. Cafodd ei drywanu bedair gwaith gan waywffon yn ninas Calamane yn yr India a' gladdu yno.

Cenhadu yn Jeriwsalem y bu **Mathias** y deuddegfed disgybl a etholwyd gan y gweddill ar ôl marwolaeth Judas Iscariot. Bu farw a'i gladdu yno.

*Huw Evans*

**Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion**
Dydd Sul, 13 Mai yng Nghapel y Morfa

**Bore am 10: Gwasanaeth Plant a Ieuenctid**
Bydd Ysgol Sul Capel y Morfa yng ngofal y defosiwn agoriadol,
Eifion Roberts yn rhannu'r neges,
Llio Penri yn arwain y canu a'r Ysgolion Sul
eraill yn cyflwyno'r emynau.

**Hwyr am 5.30: Cymanfa Ganu**
**Llywydd**: Rhys Jones

**Arweinydd** *:* Alwyn Evans

**Organyddion***:* Mary Jones Morris a Rhidian Griffiths

Cynhelir y ddau ymarfer olaf fel â ganlyn:

**1 Mai** (Nos Fawrth): Bethel Talybont
**9 Mai**: Capel y Morfa

## Alwyn

Os ydych wedi prynu copi o'r Detholiad ar gyfer y Gymanfa Ganu sydd i'w chynnal yng Nghapel y Morfa, ddydd Sul, 13 Mai (gweler uchod), efallai i chi sylwi ar yr emyn-dôn *Alwyn*. Tybed a oedd enw cyfansoddwr y dôn yn adnabyddus? Neu yn hytrach, yr oeddech yn amau mai rhywun arall o'r enw Huw Owen sy'n gyfrifol amdani.

Pam yr enw Alwyn 'medde chi? Pan yn fyfyriwr yma yn y Brifysgol, bu Huw yn lletya yn Bod Alwyn, Rhodfa'r Frenhines, a dyna pryd y cyfansoddodd y dôn. Enw'r prifathro yn Ysgol Gynradd Cross Hands, lle bu Huw yn ddisgybl, oedd Alwyn Stephens a bu ef yn bwrw golwg dros y cyfansoddiad. Hefyd cofiwn am emyn-dôn enwog David Jenkins, sef *Bod Alwyn* ond *Alwyn* sydd dan sylw yma. Ymddangosodd *Alwyn* yn y Detholiad, union hanner can mlynedd yn ôl (1967-8); ac felly dyma ddathlu'r **AUR** eleni!

# Cyfarfod Cenhadol Chwiorydd Dosbarth Gogledd Ceredigion

Cynhaliwyd y cyfarfod cenhadol blynyddol yng Nghapel y Morfa ar brynhawn Sadwrn, Ebrill 14eg. Daeth cynrychiolaeth dda ynghyd o nifer o eglwysi'r cylch. Daeth Casi Jones i'n hannerch. Ei thestun oedd *Dal ati o ddifri* a oedd yn seiliedig ar ran o'r ail bennod o'r Actau oedd yn cyfeirio at fywyd y credinwyr yn dal ati i weddïo ac addoli, yn dal ati i ddysgu ac yn dal ati i rannu ac i wasanaethu. Gallwn fel eglwysi ddysgu llawer iawn oddi wrth ymroddiad y Cristnogion cynnar. Arweiniwyd y defosiwn gan Elen Wyn, Ann Jenkins ac Eileen Jones a Mary Owen oedd yn cyfeilio. Cafwyd cyfle i ganu dau emyn a gyfansoddwyd gan Casi Jones. Diolch i Jean Davies a Beti Roberts am drefnu'r te ardderchog yn y festri ac i bawb arall a fu'n cyfrannu ac yn cynorthwyo.

*******

# Cymdeithas y Morfa

**Ebrill 9fed**

Yn dilyn y defosiwn o dan arweiniad Huw Owen, cyflwynodd y cadeirydd Hefin Jones yr Hybarch Hywel Jones, gan ei wahodd i roi cyflwyniad i ofal demensia yn yr ardal. Ef yw cadeirydd y grŵp sydd yn trefnu cyfarfodydd yn Neuadd y Waun ar brynhawn Mawrth ddwy waith y mis ar gyfer dioddefwyr demensia a'u gofalwyr. Mae'n gyfle iddynt gwrdd a mwynhau sesiynau cerddoriaeth a chanu. Maent hefyd yn cynghori ac estyn cymorth i deuluoedd sydd yn wynebu sefyllfa anodd. Pwysleisiwyd yr angen dybryd am ofal demensia cyflawn o fewn y sir fel nad oes rhaid i ddioddefwyr symud i gartrefi ymhell oddi wrth eu teuluoedd. Diolchodd Hefin Jones i'r Hybarch Hywel Jones am gyflwyniad treiddgar ac am ei ymroddiad dros y gwaith.

Ar ddiwedd y noson cynhaliwyd arolwg o waith y flwyddyn. Cyflwynwyd adroddiadau gan y swyddogion a phasiwyd i gyfrannu at yr elusennau fel â ganlyn:
Ymchwil Demensia - £100; Y Genhadaeth - £100
Clwb Ieuenctid a Hwyl Hwyr - £100.

Diolchodd y cadeirydd i bawb am eu cefnogaeth ac etholwyd swyddogion ar gyfer y flwyddyn nesaf :
Cadeirydd: Mary Owen
Ysgrifennydd: Mary C. Jones
Is-ysgrifennydd: Ellen Llwyd-Evans
Trysorydd: Ifor Davies
Etholwyd aelodau i'r pwyllgor a rhai i ymgymryd â dyletswyddau arbennig.

*Os oes syniadau gennych ar gyfer rhaglen y flwyddyn nesaf a wnewch chi roi gwybod i Mary Owen os gwelwch yn dda.*

**Dyddiadau i'w cofio**
*Nos Lun. Mai 14eg:* Taith Gerdded Hamddenol o dan arweinid Rhys a Trish Huws yn ardal Tal-y-bont. Cyfarfod y tu allan i'r Morlan am 6 o'r gloch i drefnu cludiant. Pryd bwyd ar ddiwedd y noson yn Nhal-y-bont,
*Dydd Mercher, Mehefin 13eg:* Trip y Gymdeithas i'r Ysgwrn (Cartref Hedd Wyn) a mannau eraill. (Manylion nes ymlaen).

Cynhaliwyd Joio, sef diwrnod o hwyl yn festri Eglwys Dewi Sant ar ddiwrnod hyfforddiant mewn swydd yr ysgolion. Trefnwyd amrywiaeth o weithgareddau ar y thema Dathlu - Stori Pedr ac Ioan yn iachau, gemau parasiwt, crefft, helfa wyau a pharatoi salad ffrwythau. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo.

# Ebeneser



Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at ein haelodau a'n cyfeillion sydd yn methu ymuno â ni yn y gwasanaethau ar brynhawn Sul a'r rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi neu mewn cartref gofal.

Dymuna Megan Evans ddiolch i aelodau Ebeneser am yr ymateb ardderchog eto eleni i'r casgliadau at y genhadaeth. Diolch am y cyfraniadau ariannol a'r arian a gasglwyd yn y blychau. Cyfanswm y casgliad oedd £140. Mae'r siec wedi ei throsglwyddo i Brenda Parry Owen, Trysorydd Pwyllgor Cenhadol yr Henaduriaeth.

Yn y Sasiwn yng Nghapel Bwlchgwynt Tregaron ar ddydd Iau, Mai 17 bydd Sarah Morris yn rhannu gwybodaeth am y prosiectau yma yng Nghymru ac mewn gwledydd tramor fydd yn derbyn cefnogaeth ariannol eleni. Bydd gwybodaeth amdanynt i'w weld yn rhifyn nesaf o Perthyn.

Unwaith eto diolch o galon i chi ac i Megan Evans am drefnu'r casgliad mor effeithiol o'i chartref yn Noddfa.

# Gweddi



**Duw'r Atgyfodiad**
Gweddïwn dros dy eglwys.
Achub ni oddi wrth ein caethiwed i'r gorffennol,
A'n hymlyniad i draddodiadau marw
Ac i ffurfiau a phatrymau oes a fu.
**Bywha dy bobl â grym dy atgyfodiad.**

Gweddïwn drosom ein hunain.
Gwared ni oddi wrth yr anobaith
sy'n ein cyflyru i ddisgwyl dim ond dirywiad a thrai;
y digalondid sy'n methu gweld
arwyddion bywyd a thyfiant,
a'r difaterwch sy'n ein hatal
rhag ymroi i waith dy deyrnas.
**Bywha dy bobl â grym dy atgyfodiad.**

Gweddïwn dros ein byd:
dros bawb sy'n wynebu dioddefaint ac angau
oherwydd rhyfel, newyn neu erledigaeth;
dros genhedloedd a hiliau sy'n dioddef
oherwydd gormes y cryf a'r arfog;
dros y gwan a'r tlawd
sydd heb neb i godi llais drostynt.
**Bywha dy bobl â grym dy atgyfodiad. Amen.**

*Allan o 'Y Duw Byw' gan Elfed ap Nefydd Roberts*

## SWYDDOGAETHAU MAI 2018

**Blaenor y Mis** Huw Owen

**Porthorion** Gwerfyl Pierce Jones, Hefina Davies-Wright, Menai Lloyd Williams, Mary C. Jones.

**Blodau'r Cysegr – Y Morfa**
6 Ann Jenkins a Jean Porteous
13 Dilys Lloyd
20 Mattie Evans a Mary Jones
27 Mair Griffiths

**Blodau Ebeneser**
6 Marian Weston
13 Megan Evans
20 Ann Skitt
27 Betty Bailey

**Cynorthwywyr Llestri Cymun**
6 (Nos): Dilys Lloyd, Menna Evans, Ann Jones, Glenys James

**Cynorthwywyr Ariannol**
6 D. Meirion Jones a Beti Roberts
13 Rhys Jones a Jean Lloyd Davies
20 Hywel Lloyd a Huw Chambers
27 Hefina Davies-Wright a Wynford Evans

**Tregerddan**
27 Dan ofal David Alun Jones

## DYDDIADUR MAI 2018

**Gwasanaethau'r Sul**
10.00 a 6.00 yn y Morfa; 2.15pm yn Ebeneser

6 Bugail
13 Sul y Gymanfa
20 **Pentecost** - Bugail
27 Y Parchg Noel Davies (bore a nos); Dr Gwyn Davies (prynhawn).

**Ysgol Sul** Plant a ieuenctid: bore am 10.00
**Hwyl Hwyr** bob prynhawn Llun am 3:45-5:00
**Clwb Ieuenctid** bob prynhawn Llun am 3:45-5:00

**Cylch gweddi a choffi** bore dydd Mawrth am 10:30 am yn y Morlan
**Astudiaeth Feiblaidd** 7:15 ar nos Iau yn y Morlan o dan ofal Dr Bryn Roberts
**Ffydd a phaned** prynhawn Gwener am 2:00 yn y Morlan

**Cinio Bara Chaws**
14 Mai: St Paul's 12.00 – 1.30 (Gweler Wythnos Cymorth Cristnogol)

**Golygydd y rhifyn hwn yw Hywel Lloyd.**
**Cyfraniadau ar gyfer rhifyn mis Mai o Perthyn i Sara a John (sarahminyfron@hotmail.com) erbyn dydd Gwener, 18 Mai, os gwelwch yn dda.**

# Sul y Pasg

Blaen y capel, bwrdd Llanllanast a’r bwrdd cymun nos Sul









Rhannu’r wyau Pasg, cwrdd â’r oen bach dau ddiwrnod oed a mwytho’r oen.

(Diolch i Amelia am y lluniau)





